PWYLLGOR PENODI

DYDD MAWRTH, 6 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bridgeman, McKerlich a/ac Lynda Thorne |

17 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Carter.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

19 : CYLCH GORCHWYL

Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

20 : COFNODION

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Penodi ar 29 Ionawr 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi yn gofnod cywir.

21 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i'r aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

22 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - POBL A CHYMUNEDAU

Cynullwyd y pwyllgor i gyfweld â'r pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y pwyllgor ar 29 Ionawr 2018 ar ôl ystyried y canlyniadau o'r Ganolfan Asesu. Rhoddwyd tri ymgeisydd ar y rhestr fer.

Fel rhan o'r broses gyfweld, rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau amdano.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y pwyllgor i benodi ymgeisydd i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl a Chymunedau.

PENDERFYNWYD –

1. Penodi Sarah McGill yn Gyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl a Chymunedau ar y cyflog blynyddol yn y fan sy'n gysylltiedig â'r swydd;

2. Cynhaliwyd y broses ddethol yn unol â'r broses benodi a bod pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg; Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl ei haeddiant.

23 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen ystyried yr eitem hon.